# Cymorth i wneud cais

## Beth i'w ddisgwyl

Mae cael cyfweliad ar gyfer rôl newydd yn gam cyffrous, p'un a ydych chi'n dechrau ar eich gyrfa, yn dychwelyd i'r gweithle, neu'n newid gyrfa yn llwyr.

Rydyn ni wedi ymrwymo i sicrhau bod ein proses recriwtio yn gynhwysol, yn hygyrch ac yn ddi-rwystr, gan roi cyfle i bob ymgeisydd arddangos ei sgiliau, ei brofiad a'i bersonoliaeth yn hyderus.

Rydyn ni'n cynnig hyblygrwydd o ran dyddiadau ac amseroedd cyfweliadau, gwahanol fformatau ar gyfer gwneud cais, megis papur, ar-lein, neu drwy e-bost ac rydyn ni'n hyfforddi ein rheolwyr i ddefnyddio cyfweliadau wedi'u strwythuro ac i sicrhau proses gytbwys, deg a chynhwysol.

Byddwn yn gweithio gyda chi i sicrhau eich bod yn cael y gefnogaeth sydd ei hangen arnoch i lwyddo.

Rydyn ni'n cydnabod bod taith pawb yn wahanol, ac rydyn ni'n falch o fod yn gyflogwr Hyderus o ran Anabledd.

Os oes unrhyw beth allwn ni ei wneud i'ch helpu - darparu gwybodaeth mewn fformat hygyrch, trefnu seibiant yn ystod cyfweliadau hirach neu gynnig ffyrdd eraill o arddangos eich sgiliau – cofiwch ofyn.

E-bostiwch ein tîm Gwasanaethau Pobl yn **People.Services@trivallis.co.uk**

Mae ein gwerthoedd yn diffinio ein diwylliant ac yn arwain sut rydyn ni'n gweithio gyda'n gilydd, ein tenantiaid, a'n cymuned ehangach. Rydyn ni'n credu mewn bod:

**Yn garedig** – trin pawb â thegwch a pharch.

**Yn ddibynadwy** – gweithredu gyda gonestrwydd ac uniondeb.

**Yn gynhwysol** – sicrhau bod pawb yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi.

**Yn flaengar** – yn dysgu a gwella drwy'r amser i gael gwared ar rwystrau.

Rydyn ni am i chi fwynhau a gwneud y gorau o'ch profiad cyfweld gyda ni.

Rydyn ni'n edrych ymlaen at gwrdd â chi a dysgu mwy am yr hyn y gallwch ei gynnig i'n tîm!



disability confident EMPLOYER

Trivallis.